

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Ebrill 2013



Adran Gwaith
a Phensiynau

Cynnwys

- 3 Cyflwyniad
- 4 Pa benderfyniadau byddwch yn edrych arnynt eto?
- 8 Sut y gallaf gael gwybod mwy am benderfyniad?
- 8 Fyddwch chi'n ailystyried penderfyniad o hyd os byddaf ond yn gofyn am ddatganiad o resymau?
- 9 Beth fydd yn digwydd nesaf?
- 10 Apelio yn erbyn penderfyniad
- 10 Beth fydd yn digwydd i'm hapêl?
- 15 Beth os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys?
- 18 Ble y gallaf gael gwybod rhagor o wybodaeth?

Cyflwyniad

Noder: Dim ond os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad wedi ei wneud **cyn** 28 Hydref 2013 y dylech ddefnyddio'r daflen hon.

Os gwnaethpwyd eich penderfyniad **ar neu ar ôl** y dyddiad hwn, ni ddylech ddefnyddio'r daflen hon. Mae eich hysbysiad penderfyniad yn dweud wrthy ch beth i'w wneud os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir.

Os ydych chi wedi gwneud cais am fudd-dal neu'n cael budd-dal*, efallai y bydd angen i chi wybod beth y gallwch ei wneud os credwch ein bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir am eich cais neu os nad ydych yn deall ein penderfyniad.

* Yn y daflen hon, pan rydym yn dweud 'budd-dal' mae hyn yn cynnwys cael credydau am eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os byddwch yn cael penderfyniad ysgrifenedig gennym, fel arfer mae oherwydd eich bod wedi:

- gwneud cais am fudd-dal, neu
- cael newid sy'n effeithio ar eich budd-dal, neu
- cael gwybod bod yn rhaid i chi ad-dalu budd-dal.

Mae'r daflen hon hefyd yn cynnwys adran ar wahân sy'n cwmpasu beth rydych angen ei wybod os credwch ein bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir ynglŷn â faint o gynhaliath plant mae'n rhaid i chi dalu neu y dylech gael.

Herio penderfyniad

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir, neu os nad ydych yn ei ddeall gallwch:

- gofyn i ni egluro ein penderfyniad dros y ffôn
- gofyn i ni edrych eto ar ein penderfyniad (gallai'r swyddfa budd-dal alw hyn yn 'ailystyried', 'diwygio', neu ei 'adolygu')
- gofyn i ni am 'ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau' os na gaffoch un o'r rhain yn y penderfyniad
- apelio yn erbyn ein penderfyniad.

4 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Gallwch wneud unrhyw un o'r pethau hyn neu bob un ohonynt.

Ar gyfer rhai penderfyniadau, efallai yr aiff eich apêl at dribiwnlys annibynnol. Gall y tribiwnlys annibynnol newid y penderfyniad os credant ei fod yn anghywir. Mae rhagor o wybodaeth am dribiwnlysoedd ar dudalennau 11 i 17.

Mae terfynau amser ar gyfer gofyn i ni edrych eto ar benderfyniadau ac apelio. Mae'r daflen hon yn dweud mwy wrthyfych am y terfynau amser hyn.

Pa benderfyniadau byddwch yn edrych arnynt eto?

Gallwn edrych eto ar y budd-dal neu benderfyniadau Cronfa Gymdeithasol rydym yn eu gwneud. Bydd ein llythyr penderfyniadau yn dweud wrthyfych sut y gallwch ofyn i ni wneud hyn.

Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad, mewn rhai achosion, efallai y gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Bydd y llythyr sy'n dweud wrthyfych am ein penderfyniad yn dweud wrthyfych p'un ai allwch wneud hun.

Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall

Mae rheolau arbennig os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun na allant wneud cais eu hunain. Gofynnwch i'r swyddfa sy'n delio â'ch cais am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn apelio ar ran rhywun arall

Gallwch apelio ar ran rhywun arall os yw'r person hwnnw wedi dweud, yn ysgrifenedig, y gallwch wneud hynny. Nid oes rhaid i chi fod yn gymwys yn gyfreithiol i wneud hyn. Gallech fod yn aelod o'r teulu neu unrhyw un arall mae'r unigolyn wedi gofyn iddynt eu cynrychioli.

Os ydych yn 'benodai'

Mae penodai yn rhywun rydym ni (yr Adran Gwaith a Phensiynau) wedi'i ddewis i weithredu ar ran person na all weithredu drostynt eu hunain. Os ydych yn benodai ar ran person arall, gallwch ofyn i ni edrych eto ar benderfyniad am eu budd-dal. Gallwch hefyd apelio ar eu rhan.

Cynhaliaeth plant

Mae anghydfodadau yn erbyn penderfyniadau cynhaliaeth plant yn cael eu trin yn wahanol i anghydfodadau arall sy'n cael eu cwmpasu gan y daflen hon. Gwasanaethau'r llywodraeth yw'r Asiantaeth Cynnal Plant a'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynhaliaeth plant ar ran Ysgifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau. Os credwch eu bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir ynglŷn â faint o gynhaliaeth plant mae'n rhaid i chi dalu, neu dylech ei gael, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth sy'n rheoli eich achos i anghydweld â'r penderfyniad.

Dyma'r ffordd gyflymaf yn aml i gywiro penderfyniad os credwch fod y gwasanaeth wedi esgeuluso rhyw ffeithiau pwysig.

Os credwch fod penderfyniad yn anghywir ac eisiau i'r y gwasanaeth naill ai:

- i'w egluro i chi, neu
- i edrych arno eto

dylech gysylltu â hwy drwy ffonio neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y llythyr penderfyniad roeddynt wedi ei anfon atoch. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn un mis o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad*.

Dylech ddweud wrthynt pam rydych yn credu fod y penderfyniad yn anghywir a gofyn iddynt edrych arno eto. Byddant wedyn yn egluro'r rhesymau am y penderfyniad i chi a'i newid os yw'n anghywir. Byddant hefyd yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau hyn. Os byddwch yn anfodlon gyda'r penderfyniad gallwch apelio.

Mae'n rhaid i chi apelio o fewn un mis o'r dyddiad ar y llythyr sy'n rhoi'r penderfyniad nad ydych yn hapus amdano.

Gall un o'r ddau riant wneud apêl. Fodd bynnag, os nad chi yw'r rhiant gyda'r prif ofal o ddydd i ddydd o'r plentyn, mae'n rhaid i chi barhau i dalu'r swm o gynhaliaeth mae'n rhaid i chi dalu cyn y bydd eich apêl yn cael ei benderfynu.

* Os oes gennych achos Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant bydd gennych 32 diwrnod o ddyddiad y llythyr penderfyniad.

6 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Mae yna hefyd fwy o wybodaeth yn y taflenni canlynol:

Os oes gennych achos Asiantaeth Cynnal Plant wedi ei sefydlu cyn 3 Mawrth 2003:

- **CSA2006A - Sut i apelio**

Os oes gennych achos Asiantaeth Cynnal Plant wedi ei sefydlu ar ôl 3 Mawrth 2003:

- **CSL307 - Sut y gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?**

Os oes gennych achos Asiantaeth Cynhaliaeth Plant wedi ei sefydlu ar ôl 10 Rhagfyr 2012:

- **CMSB011- Beth i'w wneud os ydych yn anhapus gyda'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant**

I ddarllen copïau o'r taflenni hyn ewch i:



www.gov.uk/child-maintenance
a dilyn y cyswllt i 'apeliadau', neu

Ffoniwch ar y rhif ar y llythyr sy'n dweud wrthych am y penderfyniad.

Nid yw'r adrannau eraill yn y daflen hon a'r ffurflen ar y cefn yn berthnasol i anghydfodiadau cynhaliaeth plant. Gallwch gysylltu â gwasanaeth y llywodraeth sy'n rheoli'r achos i gael y ffurflen gywir.

Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol

Os rydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rydym wedi ei gwneud ar gais am Taliad Annibyniaeth Personol neu Gredyd Cynhwysol peidiwch â defnyddio'r daflen hon. Mae eich llythyr penderfyniad beth i'w wneud os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir.

Ni allwch apelio hyd nes i ni edrych ar y penderfyniad eto ac anfon llythyr atoch. Gelwir y llythyr hwn yn 'Hysbysiad Ailystyriaeth Gorfodol'. Os nad ydych wedi cael 'Hysbysiad Ailystyriaeth Gorfodol' byddwch angen gofyn am un.

Ar ôl i chi gael yr 'Hysbysiad Ailystyriaeth Gorfodol', os ydych yn anghytuno o hyd gyda'r penderfyniad mae'n rhaid i chi apelio'n uniongyrchol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi. Bydd eich Hysbysiad Ailystyriaeth Gorfodol yn dweud wrthy'ch sut i wneud hyn.

Budd-dal Tai a gostyngiad treth cyngor

Eich cyngor lleol sy'n gwneud penderfyniadau am Fudd-dal Tai a gostyngiadau mewn treth cyngor, a faint y gallwch ei gael. Os credwch fod penderfyniad am Fudd-dal Tai neu ostyngiad mewn treth cyngor yn anghywir yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa yn y cyngor sy'n talu eich budd-dal.

Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) sy'n gwneud penderfyniadau am gredydau treth. Os credwch fod penderfyniad mae CThEM wedi'i wneud ar gredydau treth yn anghywir, dylech gael y daflen 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad neu ddyfarniad credyd treth'. Ffoniwch y llinell gymorth ar **0845 300 3900**. Os oes gennych anawsterau clyw y rhif ffôn testun yw **0845 300 3909**.

Budd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn gwneud penderfyniadau am Fudd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad. Os credwch fod penderfyniad mae CThEM wedi'i wneud am Fudd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad yn anghywir, dylech gael taflen CH24A 'Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir'. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwch â'r swyddfa Budd-dal Plant a anfonodd y llythyr penderfyniad atoch.

8 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Sut y gallaf gael gwybod mwy am benderfyniad?

Os ydych wedi cael llythyr penderfyniad am gais ac am gael gwybod mwy, cysylltwch â'r swyddfa a anfonodd ef atoch ar unwaith. Yna gallwch ofyn am:

- esboniad ar lafar neu'n ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad
- datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad, os nad ydych eisoes wedi cael un. Fel arfer byddwch yn cael copi o fewn 14 diwrnod o ofyn amdano.

Fyddwch chi'n ailystyried penderfyniad o hyd os byddaf ond yn gofyn am ddatganiad o resymau?

Byddwn. Fodd bynnag, oes oedd yr esboniad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dim ond un mis o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad fydd gennych o hyd i ofyn i'r swyddfa i ailystyried eu penderfyniad – dim un mis o'r dyddiad a siaradoch â ni.

Os byddwch yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig o resymau am y penderfyniad o fewn un mis o'r llythyr penderfyniad, bydd y terfyn amser ar gyfer gofyn am ailystyriaeth yn cael ei estyn. [Bydd y dyddiad y bydd yn rhaid i chi ofyn i ni ailystyried y penderfyniad yn cael ei esbonio pan fyddwn yn anfon y datganiad ysgrifenedig o resymau atoch].

Gofyn i ni edrych ar eich penderfyniad eto

Gallwch ein ffonio neu ysgrifennu llythyr yn gofyn i ni edrych eto ar benderfyniad.

Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu, **peidiwch â** defnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon. Dylai'r ffurflen hon ond gael ei defnyddio os ydych eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad.

Efallai y caniateir mwy na'r terfyn un mis os oes gennych resymau arbennig (er enghraifft, os ydych wedi bod yn

ymdopi â salwch neu brofedigaeth, neu wedi bod y tu allan i'r Deyrnas Unedig). Os na allwch gysylltu â'r swyddfa o fewn un mis dylech ddweud wrth y swyddfa beth yw eich rhesymau pan fyddwch yn cysylltu â hwy. Efallai y byddant yn dal i allu newid eu penderfyniad.

Os byddwch yn gofyn i'r swyddfa edrych eto ar benderfyniad fwy nag un mis ar ôl dyddiad y llythyr penderfyniad ac nad oes gennych reswm arbennig, yna efallai y bydd y swyddfa yn dal i allu newid eu penderfyniad. Os gallant, fel arfer dim ond o'r dyddiad y byddwch yn cysylltu â hwy y gall hyn fod. Gallai hyn olygu, er enghraifft, efallai na fyddant yn gallu ôl-ddyddio unrhyw fudd-daliadau ychwanegol.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os byddwch yn gofyn i'r swyddfa edrych eto ar benderfyniad, fel arfer bydd rhywun nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol yn gwneud hyn. Byddant yn ystyried unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi iddynt, ac os byddant yn penderfynu fod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir, byddant yn ei newid.

Os gellir newid y penderfyniad

Os gofynnoch i'r swyddfa ailystyried y penderfyniad o fewn un mis byddant yn ôl-ddyddio unrhyw fudd-dal i ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol. Byddant yn gwneud hyn hefyd os ydynt wedi derbyn fod gennych resymau arbennig am beidio â chysylltu â'r swyddfa o fewn un mis.

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch ofyn i'r swyddfa edrych arno eto neu gallwch apelio yn ei erbyn.

Os na ellir newid y penderfyniad

Os bydd y swyddfa yn penderfynu na allant newid eu penderfyniad, byddant yn ysgrifennu atoch i ddweud hyn wrthoch chi a chadarnhau fod y penderfyniad gwreiddiol yn dal i sefyll.

10 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Apelio yn erbyn penderfyniad

Os ydych yn dal i gredu fod y penderfyniad yn anghywir, efallai y bydd gennych yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol. Bydd y llythyr yn dweud p'un ai os gallwch wneud hyn. Os gallwch apelio, mae'n rhaid i chi wneud o fewn un mis o'r dyddiad ar y llythyr hwn. Mae'n rhaid i'ch apêl fod yn ysgrifenedig a gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar gefn y daflen hon. Anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy apêl yn hwyr

Os nad oeddech yn gallu apelio o fewn un mis, dylech esbonio'r rhesymau pam pan fyddwch yn apelio.

Os ydych yn apelio rhwng un mis a 13 mis o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, bydd Swyddog Apeliadau o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried yn gyntaf p'un ai os yw eich apêl wedi cael ei gwneud mewn amser, hynny yw, wedi cael ei thrin fel pe bai wedi cael ei gwneud o fewn un mis o ddyddiad y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn. Os bydd y Swyddog Apeliadau yn gwrthwynebu, (efallai byddant yn gwneud hynny os byddant yn credu nad oes gennych resymau digon da i apelio y tu allan i'r cyfnod un mis) byddant yn cyfeirio'r achos at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu os gellir derbyn eich apêl fel bod 'mewn amser' neu os yw'n rhy hwyr i gael ei glywed. Os bydd y Tribiwnlys yn derbyn eich apêl bydd yn cael ei brosesu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gael ei glywed gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi.

Mewn holl amgylchiadau, y terfyn amser olaf ar gyfer apelio yw 13 mis ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad.

Beth sy'n digwydd i'm hapêl

Os bydd eich apêl mewn amser, gall y swyddfa a wnaeth eich penderfyniad ei esbonio'n fwy manwl. Os ydych yn derbyn yr esboniad, efallai byddwch yn penderfynu peidio â pharhau gyda'ch apêl.

Os ydych eisiau parhau gyda'r apêl, bydd y swyddfa'n edrych eto ar y penderfyniad, os nad ydynt wedi gwneud hyn eisoes.

Efallai bydd y swyddfa yn cytuno fod eu penderfyniad gwreiddiol yn anghywir a gwneud penderfyniad newydd sy'n well i chi (er enghraifft, byddant yn rhoi mwy o arian i chi). Bydd y swyddfa yn anfon y penderfyniad newydd a bydd eich apêl yn stopio. Fodd bynnag, os nad ydych yn cytuno gyda phenderfyniad newydd y swyddfa, mae gennych hawl i apelio yn ei erbyn.

Os yw'r swyddfa'n cytuno fod eu penderfyniad gwreiddiol yn anghywir ond hefyd yn cytuno nad yw eu penderfyniad newydd yn eich gwneud yn well allan (er enghraifft, os ydynt yn cwtogi'r cyfnod y gallwch gael budd-daliadau), byddant yn anfon y penderfyniad newydd atoch, ond bydd eich apêl yn parhau o hyd. Bydd gennych fis arall hefyd o ddyddiad y penderfyniad newydd i anfon eich sylwadau ynglŷn â'r penderfyniad newydd.

Os nad yw'r swyddfa yn newid eu penderfyniad, byddant yn anfon eich apêl at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi, gydag esboniad o'r gyfraith a'r ffeithiau a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Bydd y swyddfa'n cynnwys hefyd unrhyw bapurau perthnasol, fel copïau o'r dystiolaeth roeddent wedi ei ystyried (er enghraifft, adroddiadau meddygol). Gelwir hyn yn 'ymateb'.

Bydd y swyddfa yn anfon copi i chi (a'ch cynrychiolydd os oes gennych un) o'u ymateb.

Darllenwch yr ymateb yn ofalus. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, gofynnwch i'r swyddfa a'i hanfonodd atoch am esboniad. Gallwch hefyd ofyn i ganolfan gynghori, fel Cyngor ar Bopeth neu gyfreithiwr am help.

Os ydych chi neu eich cynrychiolwr eisiau ateb i'r ymateb neu'n dymuno anfon mwy o ddogfennau i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi, dylech wneud hyn o fewn un mis o dderbyn yr ymateb. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn anfon ffurflen ymholiad atoch, a dylech ei llenwi a'i hanfon yn ôl atynt o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad ar y ffurflen. Os na fyddwch yn anfon y ffurflen yn ôl, gallai'r Tribiwnlys feddwl eich bod yn dymuno stopio eich apêl.

12 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Mae'r ffurflen ymholiad yn gofyn i chi sut rydych eisiau eich apêl gael ei delio â hi. Gallwch benderfynu ddod i wrandawriad eich hun. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi ddelio ag unrhyw gwestiynau neu achosion sy'n dod i fyny.

Mae pobl sy'n mynychu eu gwrandawriad fel arfer yn gwneud yn well na'r rhai sydd ddim yn mynychu.

Os byddwch yn penderfynu peidio â mynychu, bydd y tribiwnlys yn penderfynu ar eich apêl hebdo'ch os yw'n penderfynu ei fod yn gallu penderfynu ar y mater heb wrandawriad drwy ddefnyddio'r papurau apêl yn unig.

Beth mae'r tribiwnlys yn ei wneud

Mae'n bwysig sylweddoli dim ond y dystiolaeth y gall y tribiwnlys apêl eu hystyried, y gyfraith ac eich amgylchiadau ar yr amser y gwnaethpwyd y penderfyniad. Ni all newid y gyfraith na ystyried unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Os oes gennych newid mewn amgylchiadau, dylech ddweud wrth y swyddfa budd-dal ar unwaith. Peidiwch â disgwyl i'ch apêl gael ei phenderfynu. Cysylltwch â'r swyddfa a ddangosir ar y llythyr penderfyniad.

Pwy sydd ar y tribiwnlys?

- Bydd gan y tribiwnlys hyd at dri aelod. Fe'u penodir gan yr Arglwydd Ganghellor ac yn swyddogion barnwrol sy'n gweithredu'n annibynnol ar yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- Maent yn arbenigwyr ar y materion sy'n ymwneud â'ch apêl.
- Mae gan bob tribiwnlys aelod sy'n gymwys yn gyfreithiol (cyfreithiwr neu fargyfreithiwr).
- Gall tribiwnlysoedd hefyd gynnwys pobl sydd â chymwysterau meddygol neu ariannol neu'r bobl sydd â phrofiad a gwybodaeth am faterion anabledd.

Y gwrandawriad

- Mae hwn yn wrandawriad apêl y byddwch yn ei fynychu'n bersonol.
- Efallai y bydd y tribiwnlys yn gofyn cwestiynau i chi.
- Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch cynrychioli.
- Gallwch alw ar dystion i roi tystiolaeth i'r tribiwnlys.
- Gall cynrychiolydd o'r Adran Gwaith a Phensiynau fod yno hefyd. Efallai byddant yn gofyn cwestiynau i chi ac yn galw ar dystion.
- Os byddwch yn dewis gwrandawriad ond yn canfod na allwch fod yn bresennol, mae'n rhaid i chi ddweud wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn syth. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd y tribiwnlys yn delio â'r apêl hebddoch.
- Mae gwrandawriadau Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd, ond fel arfer ychydig o bobl sy'n mynychu. Mewn rhai amgylchiadau, gall y tribiwnlys gau gwrandawriad i'r cyhoedd.
- Os yw eich apêl ynglŷn â Budd-dal Anabledd Niwed Diwydiannol neu Lwfans Anabledd Difrifol, gallai'r tribiwnlys ofyn i chi i gael archwiliad meddygol yn y gwrandawriad. Bydd hyn yn cael ei wneud yn breifat gan weithiwr meddygol proffesiynol.
- Os ydych yn byw dramor ac eisiau dod i wrandawriad neu rydych eisiau anfon rhywun arall i'ch cynrychioli, gadewch i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi wybod.
Gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi drefnu i'ch gwrandawriad apêl fod:
 - mor agos â phosibl i ble rydych yn cyrraedd Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban)
 - mor agos â phosibl i'ch cynrychiolydd os oes gennych un, neu
 - wedi ei ddileu hyd nes rydych ym Mhrydain Fawr.

Costau

Efallai bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn talu am rywfaint o'ch costau i fynd i wrandawriad, er enghraifft costau teithio. Os ydych eisiau gwybod mwy am gostau, cysylltwch â swyddfa Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi sy'n trin eich apêl.

14 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Os ydych yn byw dramor, bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hunan i ac o Brydain Fawr. Efallai y gallwch gael rhai costau wedi eu talu i chi tra'r rydych ym Mhrydain Fawr.

Penderfynu ar yr apêl heb wrandawriad

Os nad oes gwrandawriad yn cael ei gynnal bydd y tribiwnlys yn penderfynu eich apêl gan ddefnyddio'r papurau apêl yn unig. Dylech anfon unrhyw wybodaeth rydych yn credu byddai'n helpu eich achos i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi. Dylech ei anfon cyn gynted â phosibl oherwydd ni fyddwch yn cael gwybod pa bryd y bydd y tribiwnlys yn ystyried yr apêl. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn anfon y penderfyniad atoch.

Y canlyniad

P'un a fyddwch yn mynychu gwrandawriad neu'n gadael i'r tribiwnlys ystyried eich apêl heb wrandawriad, bydd y canlynol yn gymwys:

- Bydd y tribiwnlys yn rhoi neu'n anfon hysbysiad penderfyniad i chi yn egluro eu penderfyniad. Byddant hefyd yn anfon copi i'r swyddfa a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.
- Bydd y tribiwnlys yn dweud wrthyich am eich hawl i wneud cais am ddatganiad ysgrifenedig o resymau. Bydd hwn yn egluro penderfyniad y tribiwnlys, gan gynnwys y ffeithiau a'r gyfraith y gwnaethant ei defnyddio. Os ydych eisiau datganiad o resymau, mae'n rhaid i chi ofyn am un yn ysgrifenedig o fewn un mis i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad.
- Os credwch fod camgymeriad yn y ffordd roedd y tribiwnlys yn cael ei redeg (er enghraifft, na chawsoch ddogfen a gafodd ei defnyddio mewn gwrandawriad, neu os na allech fynychu'r gwrandawriad), yna gallwch ofyn i'r penderfyniad gael ei roi o'r neilltu ar gyfer gwrandawriad ffres. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu i'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi, gan roi eich rhesymau, o fewn un mis o'r dyddiad ar yr hysbysiad penderfyniad.
- Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn cadw cofnod o drafodion yr apêl am o leiaf chwe mis ar ôl dyddiad y gwrandawriad. Gallwch gael copi drwy ysgrifennu atynt.

- Os bydd eich apêl yn llwyddo, bydd y swyddfa sy'n delio gyda'ch budd-dal fel arfer yn gweithredu ar benderfyniad y tribiwnlys cyn gynted ag y maent yn derbyn eu copi. Fodd bynnag, mae gan y person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i'r Uwch Dribiwnlys. Os byddant yn apelio, efallai ni fydd y swyddfa yn cymryd camau pellach nes bod yr Uwch Dribiwnlys wedi gwneud eu penderfyniad (gweler isod am fwy o wybodaeth am hyn).

Beth os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys?

Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys, efallai y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys cyfreithwyr profiadol sy'n arbenigo mewn cyfraith budd-daliadau.

Pwy all apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Gellir gwneud apeliadau gan:

- unrhyw un sydd wedi apelio yn barod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (os credwn fod y tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad wrth ddelio â'ch apêl)
- mewn rhai achosion, undeb llafur neu sefydliad tebyg sy'n apelio ar eich rhan, a
- pobl sy'n gorfod ad-dalu gordaliad budd-daliadau.

Am beth y gallaf apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Dim ond ar fater o gyfraith y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys; hynny yw, os nad ydych yn credu fod y Tribiwnlys wedi cymhwysu'r gyfraith yn gywir wrth ddelio â'ch apêl. Ni allwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys am:

- ffeithiau mae'r tribiwnlys wedi'u defnyddio, neu
- eu canfyddiadau neu eu casgliadau meddygol.

Oherwydd mai dim ond ar fater o gyfraith y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys, efallai y byddwch eisiau cael cyngor cyn penderfynu sut i ymateb i benderfyniad y tribiwnlys. Gallai hyn fod gan Gyngor ar Bopeth neu sefydliad hawliau lles arall.

Sut y gallaf apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Bydd y llythyr penderfyniad gan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn dweud wrthy'ch beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon â phenderfyniad y tribiwnlys. Darllenwch hwn yn ofalus gan ei fod yn nodi'r terfynau amser ar gyfer eich apêl.

Gallwch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, ond dim ond ar ôl i chi gael datganiad ysgrifenedig o resymau'r tribiwnlys dros eu penderfyniad. Dylech ddarllen y datganiad o resymau'n ofalus. Os credwch fod y Tribiwnlys wedi cymhwysu'r gyfraith yn anghywir, gallwch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis o'r dyddiad ar y datganiad ysgrifenedig o resymau.

Fodd bynnag, byddwch yn cael mwy o amser os oes camgymeriad ar y llythyr penderfyniad sy'n golygu fod yn rhaid i chi ei ddychwelyd i'w gywiro, neu os byddwch wedi gofyn i'r penderfyniad gael ei roi o'r neilltu a'i fod wedi'i wrthod.

Bydd y terfyn un mis wedyn yn dechrau o'r dyddiad diweddaraf ar y:

- llythyr cywiriad
- llythyr gwrthod, neu
- datganiad ysgrifenedig o resymau.

Mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i apelio. Mae'n rhaid i'ch llythyr ddweud:

- pa benderfyniad tribiwnlys rydych yn apelio yn ei erbyn
- pam rydych yn credu fod y tribiwnlys wedi cymhwyso'r gyfraith yn anghywir, a
- pa ganlyniad fydddech yn ei hoffi.

Os byddwch yn gwneud cais ar ôl y terfyn amser un mis, mae'n rhaid i chi ddweud hefyd pam a gofyn am fwy o amser. Dylech anfon y cais i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi.

Bydd y tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad yn gyntaf yn ystyried a fyddant yn adolygu'r penderfyniad eu hunain. Os byddant yn penderfynu peidio ag adolygu, eu penderfyniad byddant yn anfon eich cais naill ai i'r Uwch Dribiwnlys neu'n ei wrthod. Beth bynnag fydd y canlyniad, bydd y tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

Gallwch ofyn i ganolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth, cyfreithiwr neu unrhyw berson neu sefydliad addas arall i'ch helpu i wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Os bydd y tribiwnlys yn gwrthod eich cais am ganiatâd, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd y llythyr gan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn egluro sut.

18 Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Canolfannau cynghori

Gall canolfannau cynghori fel Cyngor ar Bopeth roi help a chefnogaeth i chi. Gallant hefyd eich helpu i lenwi eich ffurflenni neu i ysgrifennu llythyr, ac efallai yr ânt i dribiwnlys gyda chi.

Undebau llafur

Efallai y bydd undebau llafur yn rhoi cyngor am ddim i chi, neu'n siarad ar eich rhan mewn tribiwnlys apeliadau.

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

Llinell gyngor genedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr wedi ei thalu amdani gan Gymorth Cyfreithiol. Gallwch wirio os ydych yn gymwys yn www.gov.uk/legal-aid

Os na allwch gael Cymorth Cyfreithiol, neu os oes gennych broblem nad yw Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn gallu helpu, gallwch gael hyd i fanylion o bwy arall sy'n gallu.

Cyfreithwyr

Efallai y gallwch gael cyngor gan gyfreithiwr o dan y cynllun cymorth cyfreithiol.

Gallwch gael gwybod am hyn gan gyfreithiwr. Os ydych yn penderfynu defnyddio cyfreithiwr, byddwch yn ymwybodol nad yw'r cynllun cymorth cyfreithiol yn cwmpasu cost cyfreithiwr i'ch helpu mewn tribiwnlys apeliadau. Ni allwch gael arian ar gyfer ffioedd cyfreithiwr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi.

Os ydych yn byw dramor, gallwch ofyn i rywun ym Mhrydain Fawr weithredu ar eich rhan. Efallai y gallant gael help gan gyfreithiwr o dan y cynllun cymorth cyfreithiol.

Gallwch ddod o hyd i gyfeiriadau ar gyfer y sefydliadau a grybwyllir yma ar dudalennau busnes eich llyfr ffôn lleol, cyfeirlyfr Thomson Local, yr Yellow Pages, neu mewn llyfrgell

Gallwch gael gwybodaeth gyffredinol ar unrhyw un o'r materion a godir yn y daflen hon, neu gopiâu o unrhyw daflenni eraill, gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn ar dudalennau busnes eich llyfr ffôn lleol.

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am y gyfraith, ewch ar-lein i **www.legislation.gov.uk**. Efallai y bydd gan rai llyfrgelloedd mawr gopiâu o'r gyfraith hefyd.

Am fwy ynglŷn â thribiwnlysoedd, Uwch Dribiwnlysoedd a sut mae apeliadau yn cael eu delio â hwy, ewch i wefan y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi yn **www.justice.gov.uk/about/hmcts**. I gael eu taflen 'Sut i Apelio', ffoniwch **0300 123 1142**. Gall pobl sydd ag anawsterau gyda'u clyw ddefnyddio Typetalk ar **18001 0300 123 1142**

Gallwch gael y wybodaeth gwasanaeth cyhoeddus diweddaraf o **www.gov.uk**

Gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i wneud yn siŵr fod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir fel ag ym mis Ebrill 2013. Mae'n bosibl fod rhywfaint o'r wybodaeth wedi ei orsymleddio, neu efallai wedi mynd yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau yn y gyfraith.

Gallwch gael mwy o wybodaeth ynglŷn â budd-daliadau a phensiynau ar-lein.



Am wybodaeth ar fudd-daliadau ewch i
www.gov.uk/browse/benefits



Am wybodaeth ar bensiynau ewch i
www.gov.uk/browse/working/state-pension

Eich apêl

Cwblhewch y ffurflen hon ac ewch â hi neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.

1 Amdanoch chi

Teitl Mr/Mrs/Miss/Ms/Other (nodwch)

Cyfenw

Pob enw arall

Dyddiad geni / /

Rhif Yswiriant Gwladol (YG) | | | |

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif YG, sliopiau cyflog, papurau treth neu lythyrau gan Ganolfan Byd Gwaith.

Cyfeiriad presennol

<hr/>
<hr/>
<hr/>
<hr/>
Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cod	Rhif
-----	------

2 Plentyn

Os yw'r apêl hwn am blentyn, nodwch eu manylion:

Enw'r plentyn

Dyddiad geni'r plentyn / /

Rhif YG y plentyn (os oes ganddynt un) | | | |

3 Eich cynrychiolydd

Ydych chi wedi trefnu i rywun eich cynrychioli yn eich apêl?

Naddo Do Rhowch eu henw a'u cyfeiriad

Eu henw llawn

Eu cyfeiriad

Cod post

Eu rhif ffôn

Cod	Rhif
-----	------

Llofnodwch y blwch hwn i awdurdodi'r person hwn i weithredu ar eich rhan

--

4 Y Penderfyniad

Enw'r budddal neu'r budddaliadau

--

Dyddiad ar frig y llythyr am y penderfyniad

/	/
---	---

5 Yr apêl

- Defnyddiwch y gofod ar ddiwedd y ffurflen hon i ddweud pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Mae'n rhaid i chi ddweud pam y credwch fod y penderfyniad yn anghywir. Nid yw'n ddigon dweud 'Dydw i ddim yn cytuno â'r penderfyniad hwn', 'Nid yw'r arian yn ddigon' neu 'Mae fy meddyg yn dweud fy mod yn sâl'.
- Mae'n rhaid i'r rheswm a rowch fod yn debyg i'r enghreifftiau hyn:
 - 'Rwy'n credu eich bod wedi defnyddio'r ffigurau anghywir i weithio fy llog morgais allan. Y ffigurau cywir yw...'
 - 'Rydych wedi fy nhalu o 4 Gorffennaf ond rwy'n credu y dylwn gael fy nhalu am bythefnos cyn hynny oherwydd...'
 - 'Dylai fy Lwfans Byw i'r Anabl fod yn fwy oherwydd mae angen sylw arnaf o leiaf wyth gwaith y dydd nid yn "anaml" fel rydych wedi dweud'.

- Os ydych yn apelio yn erbyn mwy nag un penderfyniad, mae'n rhaid i chi ddweud pam eich bod yn anghytuno â phob un.
- Os ydych yn apelio fwy na mis ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, mae'n rhaid i chi ddweud pam y bu oedi gyda'ch apêl.

6 Dylech chi neu'ch cynrychiolydd lofnodi isod

Llofnodwch yma

Dyddiad

7 Beth i'w wneud nawr

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi dweud wrthym ar ochr arall y ffurflen hon pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Ewch â'r ffurflen hon neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch.
- Bydd o gymorth os byddwch yn ysgrifennu 'Apêl' ar flaen yr amlen.
- Cofiwch, mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd y swyddfa o fewn mis o'r dyddiad ar frig y llythyr sy'n dweud wrthy'ch am y penderfyniad.

Rhesymau

- Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad.
- Mae'n rhaid i chi ddweud **pam** y credwch fod y penderfyniad yn anghywir. Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS.

- Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen arall o bapur.
- Cofiwch roi eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw ddalennau o bapur ychwanegol.
- **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi ochr arall y ffurflen hon a'i llofnodi.**
- Ewch â'r ffurflen hon neu anfonwch hi i'r swyddfa a anfonodd y penderfyniad atoch..

Ar gyfer ein defnydd ni

 /

Cyflwynwyd ffurflen apelio i'r cwsmer

 /

Derbyniwyd yr apêl

 /

Derbyniwyd yr apêl yn swyddfa'r sector

 /

Rhif yr anfoneb